Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Offeryn Bandio Arfaethedig ar gyfer Taliadau Gosodiadau

# Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb CNC

Rhagfyr 2023

## Crynodeb gweithredol

Fel rhan o’n hymrwymiad i asesu’n barhaus y modd y cyflawnwn ein gwasanaethau a’r modd yr adolygwn ein taliadau ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio, a hefyd er mwyn sicrhau bod ein prosesau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, aeth CNC ati i gomisiynu Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) ar gyfer gwasanaethau trwyddedu a ddarperir i’n cwsmeriaid.

Fel rhan o’r ymgynghoriad hwnnw, fe wnaethom gynnig cyflwyno pedwar band codi tâl newydd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau gosodiadau. Tra bo rhaglen y SRoC wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer y taliadau yn y maes hwn, yn ôl adborth a ddeilliodd o ymgynghoriad SRoC tan fis Ionawr 2023, roeddech o’r farn nad oeddem wedi cyflwyno digon o wybodaeth am y pedwar band newydd na’r modd y byddent yn cael eu rhoi ar waith.

Aethom ati i egluro sut byddai’r offeryn bandio arfaethedig yn gweithio, a rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2023 cynhaliwyd ymgynghoriad arall (a barodd 12 wythnos) er mwyn rhannu ein cynigion a cheisio adborth. Rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom, ac o ganlyniad rydym wedi cyflwyno newidiadau i’r canllawiau a’r offeryn bandio.

O 23:59 ar 14 Ionawr 2024, byddwn yn rhoi’r gorau i ddefnyddio ein hofferyn Asesu Risgiau Gweithredol (Opra) i bennu taliadau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau. O 00.00 ar 15 Ionawr 2024, yn achos yr holl geisiadau y byddai’n ofynnol iddynt gael sgôr Opra o’r blaen, bydd angen iddynt ddefnyddio’r offeryn bandio codi tâl newydd i gyfrifo’r tâl sy’n daladwy.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Opra i bennu’r tâl parhau blynyddol sy’n daladwy – er, byddwn yn adolygu’r maes hwn a fydd yn ffurfio rhan o’n rhaglen waith tymor hwy.

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol ... 2

Cyflwyniad ... 1

Ein taliadau newydd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau Gosodiadau ... 1

Y broses ymgynghori ... 2

Y modd yr ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ... 3

Yr ymatebwyr ... 3

Crynodeb o'r sylwadau a'n hymateb ni ... 3

A. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hofferyn bandio codi tâl arfaethedig ar gyfer gosodiadau? ... 3

A1. Y modd y bydd yr offeryn bandio'n effeithio ar drwyddedau sydd eisoes ar waith ... 3

A2. Hwylustod ac eglurder y canllawiau ... 3

A3. Mae'r broses arfaethedig yn rhy gymhleth o gymharu â phrosesau cyfrifo a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill yn y DU ... 5

A4. Rydym o'r farn bod y ffioedd yn rhy uchel ... 5

A5. Sut mae'r offeryn bandio'n berthnasol i brosiectau adnewyddadwy? ... 6

A6. Efallai y byddai'n well pe bai rhannau o'r canllawiau'n cael eu cynnwys mewn dogfen ganllawiau ategol, gan mai i nifer fechan yn unig o weithfeydd yng Nghymru y maent yn berthnasol ... 6

A7. Gellid ateb yn awtomataidd y nodyn ynglŷn â phrotocol aml-gynnyrch ar gyfer gweithgareddau Adran 4 nad ydynt yn ymwneud â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ... 6

A8. 'Arwyddocâd Cenedlaethol' – a wnewch chi esbonio'r diffiniad yn y canllawiau ategol a'r cyfeiriad at y canllawiau. Caiff hyn ei gamddeall yn aml gan ymgeiswyr ... 6

A9. Ar ôl gwneud cyfrifiad enghreifftiol ar gyfer cyfleuster treulio anaerobig, amcangyfrifir y bydd yna gynnydd o 25% yn y ffioedd o gymharu â'r cyfrifiadau cyfredol ... 7

A10. Y prif dab Ceisiadau ac Amrywiadau – Efallai fod yna wall yn ymwneud â gweithgareddau hylosgi A1.1: ... 7

A11. Ailadrodd yr wybodaeth sy'n angenrheidiol ... 7

A12. Mae'r daenlen yn cynhyrchu 'trothwy' yn y tab hwn, ond nid yn y cyfrifiad 'ceisiadau' – beth yw'r fantais o wneud hyn? Pam mae hyn yn digwydd mewn un tab, ond nid yn y llall? ... 8

A13. Nid oes angen taenlen gyfrifo ar gyfer trosglwyddo trwyddedau. Byddai cael gwared â'r tab hwn yn helpu i symleiddio pethau. ... 8

A14. Materion yn ymwneud â nodweddion ymarferol yr offeryn ... 8

B. A yw’n glir beth sydd angen ichi ei wneud i lenwi’r daenlen a chyfrifo eich taliad? ........ 8
B1. Beth fydd y Taliadau Parhau Blynyddol ar gyfer Gosodiadau Band 3 ar sail yr offeryn bandio codi tâl newydd? ........ 8
B2. Byddai tiwtorial ar-lein yn ddefnyddiol ........ 9
B3. Gall lefel y manylion a’r math o iaith a ddefnyddir beri dryswch i nifer o ymgeiswyr safleoedd gwastraff ........ 9
B4. Gallai’r cynnydd mewn ffioedd ar gyfer safleoedd llai atal buddsoddwyr rhag buddsoddi yn seilwaith gwastraff Cymru yn y dyfodol ........ 9
B5. Mae’r ffioedd ar gyfer pennu ceisiadau am drwyddedau yn uwch yn awr na’r gost o gyflogi ymgynghorydd i baratoi dogfennau’r cais ........ 9
B6. Mae’r costau sefydlog a godir gan CNC am adolygu asesiadau modelu/technegol yn debygol o arwain at sefyllfa lle bydd safleoedd llai yn ‘ariannu’ costau safleoedd mwy ........ 10
B7. Nid yw’r fethodoleg codi tâl newydd yn gwobrwyo perfformiad amgylcheddol da o gymharu â’r system OPRA flaenorol ........ 10
Atodiad 1 – Y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad codi tâl ........ 11
Atodiad 2 – Geirfa ........ 11
Atodiad 3 – Yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad ........ 13
(Rhestr o’r holl ymatebion yn llawn) ........ 13
I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’n hofferyn bandio codi tâl arfaethedig ar gyfer gosodiadau? ........ 13
Gan edrych ar yr offeryn bandio codi tâl, a yw’n glir beth sydd angen ichi ei wneud i lenwi’r daenlen a chyfrifo eich taliad? ........ 16

## Cyflwyniad

Fel corff Llywodraeth Cymru, rhaid i CNC gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni adennill yn llawn gostau'r gwasanaethau rheoleiddio a ddarparwn oddi wrth y rhai sy'n eu defnyddio, yn hytrach na bod y gwasanaethau hynny'n cael eu hariannu trwy drethiant cyffredinol.

Rhwng Hydref 2022 ac Ionawr 2023, fe wnaethom ymgynghori ynghylch taliadau ceisiadau newydd ar gyfer nifer o gyfundrefnau, yn cynnwys gosodiadau. Gwnaethom y newidiadau hyn oherwydd nad oedd ein taliadau ar y pryd yn adlewyrchu'r gost o ddarparu ein gwasanaeth i chi. Rhoddwyd y taliadau newydd hyn ar waith ym mis Gorffennaf 2023.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, fe wnaethom gynnig cyflwyno pedwar band codi tâl newydd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau gosodiadau. Er mwyn pennu pa fand a fydd yn berthnasol i geisiadau, fe wnaethom ddatblygu offeryn bandio.

Mae'r offeryn bandio yn paru'r tâl sy'n daladwy yn agosach â'r amser a gymerir i benderfynu ar bob cais ac felly'r gost i ni o ran darparu'r gwasanaeth hwn. Mae hyn yn wahanol i'r offeryn Asesu Risgiau Gweithredol (Opra) cyfredol, lle mae'r ymgeiswyr yn talu swm yn seiliedig ar 'ffactor risg' amgylcheddol ar gyfer y safle cyfan.

Mae'r asesiad sydd ei angen i benderfynu ar amrywiad yn benodol i'r cais. Gall amrywio rhwng ceisiadau a wneir gan yr un gweithredwr safle, ac rydym yn cynnig y dylai'r tâl adlewyrchu cost y gwasanaeth a ddarperir. Nid 'un dull sy'n addas i bawb' fydd hwn, ond dull hyblyg a fydd yn cyd-fynd â'r cais unigol.

Yn ôl yr adborth a gawsom yn sgil yr ymgynghoriad cyntaf, nid oedd y rhai a ymgynghorwyd â nhw o'r farn ein bod wedi cyflwyno digon o wybodaeth am y pedwar band newydd na'r modd y byddant yn cael eu rhoi ar waith. Aethom ati i ymgysylltu ymhellach gyda rhanddeiliaid, gan roi rhagor o wybodaeth iddynt, cyn penderfynu a ddylid cyflwyno'r offeryn bandio newydd, ai peidio.

## Ein taliadau newydd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau Gosodiadau

Ers iddo gael ei gyflwyno yn 2003, rydym wedi defnyddio cynllun codi tâl Opra ar gyfer ceisiadau am drwyddedau Gosodiadau pwrpasol.

Yn achos taliadau ar gyfer ceisiadau lle defnyddir Opra, cânt eu cyfrifo trwy ddefnyddio lluosydd o sgôr risg pob safle. Dim ond rhyw 4% mae'r lluosyddion wedi cynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf; ac yn ychwanegol at hyn, mae ein Hadolygiad Strategol o Godi Tâl yn dangos nad yw Opra mwyach yn bodloni anghenion cynllun codi tâl modern sy'n seiliedig ar adennill costau, mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau.

Rydym yn mynd ati'n barhaus i geisio gwneud ein proses asesu yn fwy effeithlon trwy ddatblygu offer newydd; ac os caiff arbedion effeithlonrwydd eu gwneud yn y dyfodol, efallai y bydd modd lleihau'r taliadau a godir am geisiadau.

Mae'r offeryn bandio yn gwneud y canlynol:

- pennu un band o blith pedwar o fandiau codi tâl sylfaenol ar gyfer y cais, gan ddibynnu ar ei gymhlethdod
- ychwanegu taliadau ar gyfer gweithgareddau eraill a gynhwysir yn y cais
- ychwanegu taliadau ar gyfer rhai asesiadau pwrpasol dim ond pan fo'u hangen

Defnyddir amser a deunyddiau i gyfrifo asesiadau pwrpasol sy'n ymwneud yn benodol â thirlenwi, a hefyd ar gyfer ceisiadau a fydd yn cymryd mwy na 150% o'r amser y telir amdano gan y tâl.

Byddwn yn cadw 14% o dâl y cais pan ddychwelir y cais hwnnw gan na ellir gwneud penderfyniad yn ei gylch oherwydd gwybodaeth annigonol.

Byddwn yn codi tâl am geisiadau ar gyfer amrywiadau gweinyddol yn unig i drwyddedau. Ni fyddwn yn codi tâl am amrywiadau gweinyddol a roddir ar waith gan CNC.

## Y broses ymgynghori

Defnyddiwyd sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i ymgynghoriad blaenorol yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl i adolygu ein cynigion.

Ar 1 Awst 2023, cynhaliwyd cyfarfod gyda'n Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau[1] i drafod a mireinio'r cynigion ar gyfer yr offeryn bandio codi tâl, ar sail yr adborth.

Ar 21 Awst 2023, lansiwyd ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys rhagor o fanylion am yr offeryn bandio newydd, yn ogystal â mynediad ato.

Defnyddiwyd ein hwb ymgynghori i gynnal yr ymgynghoriad a choladu'r ymatebion. Hefyd, derbyniwyd ymatebion ar-lein trwy gyfrwng *Gofod i Ddinasyddion*, yn ogystal ag ymatebion trwy'r post a thrwy e-bost.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Tachwedd 2023.

Yn ogystal â'r sylwadau a dderbyniwyd trwy gyfrwng ein proses 'cyn ymgynghori' gyda'r Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau, cawsom 4 ymateb. Cyflwynwyd tri o'r ymatebion hyn gan fusnesau unigol a chyflwynwyd y pedwerydd ar ran aelodau corff masnach.

[1] Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys aelodau o blith sefydliadau masnach a sefydliadau sy'n cynrychioli ein rhanddeiliaid.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gafwyd yn fawr iawn ac rydym wedi ystyried yr holl ymatebion cyn cadarnhau ein cynigion. Fe wnaethom wrando ar y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ac rydym wedi cyflwyno newidiadau i'n canllawiau.

Ein bwriad yw rhoi'r offeryn bandio codi tâl newydd a'r taliadau cysylltiedig ar waith am hanner nos ddydd Llun 22 Ionawr 2024.

## Y modd yr ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Gan mai nifer fechan o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, aethpwyd ati'n fewnol i'w hadolygu a gwneud penderfyniad yn eu cylch.

Isod, nodir yr adborth a gafwyd trwy gyfrwng yr ymgynghoriad, yn ogystal â'n hymatebion ni.

## Yr ymatebwyr

Cafwyd pedwar ymateb trwy gyfrwng yr ymgynghoriad. Cyflwynwyd un o'r ymatebion hyn ar ran corff masnach, ac o'r herwydd efallai ei fod yn cynrychioli mwy o leisiau na dadansoddiad ansoddol syml. Cyflwynwyd yr ymatebion gan y sectorau canlynol:

- Storio a dosbarthu cynhyrchion petroliwm
- Metelau
- Sment a Mwynau
- Gwastraff

## Crynodeb o'r sylwadau a'n hymateb ni

### A. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hofferyn bandio codi tâl arfaethedig ar gyfer gosodiadau?

| 25% Anghytuno | 50% Heb anghytuno na chytuno | 25% Cytuno |
|---|---|---|

#### A1. Y modd y bydd yr offeryn bandio'n effeithio ar drwyddedau sydd eisoes ar waith

Ni fydd cyflwyno'r offeryn bandio yn effeithio ar drwyddedau sydd eisoes ar waith.

Fodd bynnag, pe bai deiliad trwydded yn dymuno gwneud cais am drwydded newydd neu'n dymuno amrywio, trosglwyddo neu ildio'i drwydded, byddai'n rhaid iddo ddefnyddio'r offeryn bandio i gyfrifo'r tâl ar gyfer y gwaith hwnnw.

#### A2. Hwylustod ac eglurder y canllawiau

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod yr offeryn yn aneglur:

a) Mae’r ymdrech ychwanegol o ran defnyddio’r offeryn (a gwaith CNC o ran gwirio’r cyfrifiadau) yn anghymesur â’i werth.

b) Ansicrwydd ynghylch a yw cyfeirio at gymhwysedd yn gwestiwn ynteu’n ddatganiad cyngor.

Datganiad yw hwn. Mae’r offeryn yn nodi yn awtomatig y gweithgareddau hynny lle mae angen Rheolaeth Gymwys Dechnegol yn angenrheidiol. Gwnaed newidiadau er mwyn egluro hyn ac ychwanegwyd nodyn eglurhaol.

c) Mae rhai nodiadau’n aneglur

Wedi aralleirio rhai nodiadau ac ychwanegu mwy o eglurhad. Wrth fwrw ymlaen byddem yn croesawu unrhyw adborth pellach gan ymgeiswyr sy’n defnyddio’r offeryn.

d) Y defnydd a wneir o acronymau

Wedi’i nodi. Acronymau wedi eu tynnu.

e) Cais am dabl i ddangos sut mae’r offeryn yn gweithio

Mae tablau wedi cael eu hychwanegu at y taenlenni trwydded newydd ac amrywiadau i ddangos sut mae’r cyfrifiadau’n gweithio.

f) Awgrymiadau gan y Tîm Trwyddedu er mwyn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr ddeall y termau angenrheidiol

Terminoleg wedi’i newid, gan gynnwys ‘Enw Sefydliad’ yn ‘Enw Gweithredwr’, ‘Rhif Achos’ yn ‘Rhif Trwydded’ (ac eithrio ‘Ceisiadau newydd’ lle nad yw’n berthnasol).

g) A wnewch chi egluro’r hyn a gaiff ei leihau: “A yw eich safle hefyd yn dod o dan Reoliadau COMAH? (bydd lleihad yn cael ei gymhwyso at yr adran hon ar gyfer safleoedd COMAH)”

Wedi diwygio’r geiriad i egluro fod y sgôr yn cael ei leihau ar gyfer safleoedd COMAH.

h) Y tab gweithgareddau a restrir – “Pa weithgareddau a restrir sy’n hanfodol i’ch cais” – a yw hyn yn golygu “beth yw’r gweithgaredd arweiniol” (h.y. un gweithgaredd)? Byddai’n fuddiol pe bai iaith glir a chyson yn cael ei defnyddio.

Wedi ychwanegu eglurhad ar gyfer hyn i sicrhau ei fod yn glir i ymgeiswyr.

i) Mae angen symleiddio’r cwestiwn sy’n cael ei ateb yn awtomataidd ynglŷn â’r cynnydd yng nghapasiti’r amrywiadau.

Dylai hyn fod wedi bod yn ddatganiad yn hytrach na chwestiwn. Y geiriad a’r lliw wedi eu newid i’w gwneud yn gliriach.

j) Y tab amrywiadau – Efallai y bydd angen aralleirio neu symleiddio Cam 1, Cwestiwn 4. Hefyd, byddai’n ddefnyddiol cynnwys rhai enghreifftiau yn y canllawiau e.e. er mwyn dangos yn glir bod y cwestiwn hwn yn berthnasol i weithrediadau gwastraff sy’n pontio tuag at osodiad (os mai dyna’r sefyllfa).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **STEP 1 - Is this a substantial variation?** | 1 | From pre-application discussions, is this a Substantial Variation application? | | **yes** |
| | 2 | Are you seeking a derogation from a BATc as part of your variation request? | | **no** |
| | 3 | Number of new Sch 1 Part A (1) activities being added to your permit | | 0 |
| | 4 | Is your proposed increase in throughput more than the threshold that brings that activity into Part A(1) of the Environmental Permitting Regulations? | | no |

Rydym wedi diwygio, egluro a symleiddio’r canllawiau er mwyn ymdrin â’r pwyntiau uchod ac rydym wedi addasu cynllun yr offeryn er mwyn gwneud pethau’n gliriach i ddefnyddwyr.

### A3. Mae’r broses arfaethedig yn rhy gymhleth o gymharu â phrosesau cyfrifo a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill yn y DU

Er bod y broses rywfaint yn fwy cymhleth na’r prosesau a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill, rydym o’r farn bod canlyniadau ein hofferyn bandio yn adlewyrchu’n well yr amser a dreulir yn gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau, a bod y broses hefyd yn fwy tryloyw, gan ddangos i weithredwyr y pethau y codir tâl amdanynt.

Mae’r offeryn bandio newydd yn llai trafferthus o lawer na’r offeryn Opra y bwriadwn roi’r gorau i’w ddefnyddio.

### A4. Rydym o’r farn bod y ffioedd yn rhy uchel

Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn mynnu ein bod yn adennill yn llwyr y costau a ddaw i ran CNC wrth brosesu a phennu ceisiadau am drwyddedau oddi wrth y rhai sydd angen y gwasanaethau hyn.

Ni chawn wneud elw na cholled o ganlyniad i'n gweithgareddau rheoleiddio. Yr unig beth y caniateir inni ei wneud yw adennill ein costau ac ni chawn ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill i ariannu'r broses.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r ffordd mae'r offeryn bandio taliadau yn gweithio yn hytrach na'r taliadau cysylltiedig, yr oedd y Gweinidog yn ymgynghori arnynt ac yn eu cymeradwyo fel rhan o raglen SRoC.

Rydym yn fodlon bod yr offeryn bilio'n cyfrifo'r taliadau mewn modd cymesur, teg a thryloyw.

### A5. Sut mae'r offeryn bandio'n berthnasol i brosiectau adnewyddadwy?

Rhaid i CNC weithio'n unol ag egwyddorion y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n ofynnol i'r rhai sydd angen y gwasanaethau hyn ysgwyddo'r costau'n llwyr.

Ni cheir unrhyw eithriadau ar gyfer prosiectau adnewyddadwy.

### A6. Efallai y byddai'n well pe bai rhannau o'r canllawiau'n cael eu cynnwys mewn dogfen ganllawiau ategol, gan mai i nifer fechan yn unig o weithfeydd yng Nghymru y maent yn berthnasol

Rydym wedi aralleirio rhywfaint ar y cwestiwn er mwyn cael gwared ag amwysedd, ond rydym o'r farn mai oddi mewn i'r offeryn ei hun yw'r lle gorau i gynnwys y canllawiau hyn.

### A7. Gellid ateb yn awtomataidd y nodyn ynglŷn â phrotocol aml-gynnyrch ar gyfer gweithgareddau Adran 4 nad ydynt yn ymwneud â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Byddwn yn ystyried diweddaru a gwella'r offeryn dros amser a byddwn yn ystyried yr awgrym hwn ymhellach yr adeg honno.

### A8. 'Arwyddocâd Cenedlaethol' – a wnewch chi esbonio'r diffiniad yn y canllawiau ategol a'r cyfeiriad at y canllawiau. Caiff hyn ei gamddeall yn aml gan ymgeiswyr.

Er eglurder, rydym wedi dileu'r cyfeiriad at y term hwn fel rhan o'n hadolygiad ôl-ymgynghori. Mae datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cyfeirio at weithfeydd hylosgi mawr sy'n cael eu cynnwys mewn rhan arall o'r offeryn.

## A9. Ar ôl gwneud cyfrifiad enghreifftiol ar gyfer cyfleuster treulio anaerobig, amcangyfrifir y bydd yna gynnydd o 25% yn y ffioedd o gymharu â'r cyfrifiadau cyfredol

Rydym wedi datblygu'r offeryn bandio codi tâl er mwyn sicrhau bod ein taliadau'n adennill costau'r ymdrech sydd ei hangen i bennu'r drwydded. I rai safleoedd, bydd hyn yn golygu ffioedd ymgeisio uwch, ond i eraill bydd y ffioedd yn lleihau. Rydym o'r farn bod yr offeryn yn neilltuo'n gywir y costau sydd ynghlwm wrth bennu ceisiadau am drwyddedau ar gyfer gwahanol safleoedd.

## A10. Y prif dab Ceisiadau ac Amrywiadau – Efallai fod yna wall yn ymwneud â gweithgareddau hylosgi A1.1:

| Schedule 1 Part A(1) Reference | Primary Activity | New activity | Threshold | Current activity capacity in your permit | New capacity | Units | BATc applies | TCM activity | TCM required | new activity without BATc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Part A (1) a) (i) | | | 50 | 50 | 100 | MW | LCP | 0 | | |

- Gall hyn beri dryswch i ymgeiswyr, oherwydd efallai y byddant yn credu bod angen iddynt gymhwyso terfynau Technegau Gorau Sydd ar Gael Gweithfeydd Hylosgi mawr.
- Go brin y bydd y daenlen yn darparu ar gyfer y mathau hyn o gymhlethdodau wrth ddehongli'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, felly efallai y byddai'n ddoeth cael gwared â'r golofn BATc yn llwyr.

Rydym wedi edrych ar hyn i ddileu gwall ac rydym yn fodlon ei fod yn gywir at ddibenion yr offeryn ac at ddibenion cyfrifo taliadau. Wrth bennu trwyddedau ar gyfer gweithfeydd hylosgi sy'n fwy na 50MWth, rydym yn defnyddio Casgliadau BAT Gweithfeydd Hylosgi Mawr fel safon dechnegol sylfaenol ar gyfer ein hasesiadau.

## A11. Ailadrodd yr wybodaeth sy'n angenrheidiol

- Y tab Cyflwyniad – Ailadroddir cwestiynau mewn ffurflenni cais statudol – pam mae angen gofyn am yr wybodaeth hon eto yn yr offeryn bandio codi tâl?
- Gellid cydgrynhoi neu awto-lenwi ar sail atebion a roddwyd mewn tabiau blaenorol.
- Gellid cuddio neu ddileu rhai ymatebion er mwyn lleihau'r cymhlethdod ymddangosiadol (e.e. ymholiadau'n ymwneud â sment).

Wrth inni ddatblygu'r offeryn a'r broses ymgeisio yn y dyfodol, ein bwriad yw symleiddio'r wybodaeth y gofynnir amdani. Ar hyn o bryd, rhaid inni ofyn am yr wybodaeth hon yn y cais a hefyd yn yr offeryn bandio er mwyn sicrhau ein bod yn cymhwyso'r tâl iawn at y cais iawn.

### A12. Mae'r daenlen yn cynhyrchu 'trothwy' yn y tab hwn, ond nid yn y cyfrifiad 'ceisiadau' – beth yw'r fantais o wneud hyn? Pam mae hyn yn digwydd mewn un tab, ond nid yn y llall?

Pan fyddwn yn cael cais i amrywio trwydded, rhaid inni wybod beth yw'r newid o ran y capasiti. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo a yw'r amrywiad yn sylweddol, ai peidio. O'r herwydd, rhaid inni ofyn am yr wybodaeth hon yn y tab hwn.

Mae angen inni ofyn am yr wybodaeth yn y tab hwn er mwyn pennu a yw'r capasiti yn cynyddu yn ôl mwy na 25%, a fyddai'n ffactor cymhlethdod.

### A13. Nid oes angen taenlen gyfrifo ar gyfer trosglwyddo trwyddedau. Byddai cael gwared â'r tab hwn yn helpu i symleiddio pethau.

Mae'r tab trosglwyddo yn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr wybod eu bod yn talu'r tâl iawn. Er bod a wnelo'r mwyafrif o geisiadau â throsglwyddo'r gosodiad yn llwyr, yn achos trosglwyddiadau rhannol rydym angen gwybod am agweddau sy'n gwneud y cais yn fwy trafferthus i'w bennu.

Er ein bod yn cytuno na fydd angen i lawer o ymgeiswyr ddefnyddio'r offeryn hwn ar gyfer trosglwyddo, mae rhai ceisiadau trosglwyddo yn fwy cymhleth, ac roeddem yn teimlo y byddai'n fuddiol cael offeryn a fyddai'n gallu cyfrifo'r taliad ar gyfer y rhain.

### A14. Materion yn ymwneud â nodweddion ymarferol yr offeryn

- Ymddengys fod sgriniau llai yn peri i'r testun gael ei docio.
- Nid oes modd gweld Blwch 7 i gyd ar bob sgrin (efallai fod hyn yn berthnasol i adrannau eraill o'r daenlen hefyd – a wnewch chi wirio hyn).

Diolch am dynnu sylw at hyn. Rydym wedi diwygio'r offeryn ac mae hynny wedi datrys y broblem.

## B. A yw'n glir beth sydd angen ichi ei wneud i lenwi'r daenlen a chyfrifo eich taliad?

100% Anghytuno

### B1. Beth fydd y Taliadau Parhau Blynyddol ar gyfer Gosodiadau Band 3 ar sail yr offeryn bandio codi tâl newydd?

Lluniwyd yr offeryn bandio er mwyn cyfrifo'r taliadau cywir ar gyfer ceisiadau. Mae'r tâl yn adlewyrchu faint o ymdrech sy'n angenrheidiol i bennu'r trwyddedau hyn.

Nid ydym wedi adolygu ein taliadau parhau eto, ond byddwn yn gwneud hynny fel rhan o raglen waith yn y tymor hwy lle byddwn yn adolygu'r holl daliadau. Tan hynny, byddwn yn dal i gyfrifo taliadau parhau yn yr un modd.

**B2. Byddai tiwtorial ar-lein yn ddefnyddiol**

Diolch am yr awgrym hwn. Rydym yn ystyried ffyrdd o wella ein canllawiau a byddwn yn ystyried sut gallwn wneud hyn fel rhan o'n gwaith i wella'r canllawiau a gyflwynwn i ymgeiswyr.

**B3. Gall lefel y manylion a'r math o iaith a ddefnyddir beri dryswch i nifer o ymgeiswyr safleoedd gwastraff**

Rydym wedi diwygio, egluro a symleiddio'r canllawiau er mwyn ymdrin â'r pwyntiau uchod ac rydym wedi addasu cynllun yr offeryn er mwyn gwneud pethau'n gliriach i ddefnyddwyr. Hefyd, rydym wedi cael gwared â rhai acronymau di-fudd.

**B4. Gallai'r cynnydd mewn ffioedd ar gyfer safleoedd llai atal buddsoddwyr rhag buddsoddi yn seilwaith gwastraff Cymru yn y dyfodol**

Caiff cynlluniau codi tâl CNC eu seilio ar adennill y costau'n llwyr, yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, rheolau Trysorlys Ei Fawrhydi a rhwymedigaethau o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Nod ein taliadau arfaethedig yw sicrhau y bydd modd adennill y costau sydd ynghlwm wrth bennu ceisiadau am drwyddedau oddi wrth y rhai a reoleiddiwn, gan osgoi defnyddio arian cyhoeddus i ariannu'r broses (Cymorth Grant). Trwy adennill y costau'n llwyr, gellir helpu i sicrhau bod CNC mewn sefyllfa well i reoleiddio a diogelu amgylchedd Cymru, gan gyfrannu at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

**B5. Mae'r ffioedd ar gyfer pennu ceisiadau am drwyddedau yn uwch yn awr na'r gost o gyflogi ymgynghorydd i baratoi dogfennau'r cais**

Wrth bennu'r taliadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am drwyddedau, mae CNC wedi defnyddio'r egwyddor sydd ynghlwm wrth 'adennill y costau'n llwyr', yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Rydym wedi cyfrifo pob taliad trwy nodi'r gweithgareddau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phennu trwyddedau o bob math, pa mor hir yw'r broses a beth yw'r costau. Yna, dyrannwyd costau gweithgareddau anuniongyrchol mewn modd teg a chymesur ar sail lefel y gweithgareddau uniongyrchol. Rydym o'r farn bod ein methodoleg yn gytbwys a'i bod yn cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac egwyddorion rheoleiddio.

Mae ansawdd y ceisiadau a dderbynnir yn ffactor o ran yr amser a gymerir i bennu ceisiadau. Po isaf yw ansawdd y ceisiadau a dderbynnir, po fwyaf o amser a gymerwn i'w pennu. Ers mis Gorffennaf 2023, rydym wedi dechrau dychwelyd ceisiadau o ansawdd gwael iawn ac yn awr rydym yn cadw cyfran o'r ffi i dalu am y gwaith a wnaed hyd at yr adeg honno. Rydym yn adolygu ein taliadau'n rheolaidd. Os gwelwn fod ansawdd y ceisiadau'n gwella, gan beri inni orfod treulio llai o amser yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch, yna bydd y taliadau'n gostwng.

## B6. Mae'r costau sefydlog a godir gan CNC am adolygu asesiadau modelu/technegol yn debygol o arwain at sefyllfa lle bydd safleoedd llai yn 'ariannu' costau safleoedd mwy

Rydym wedi cael cyfarwyddyd i adennill ein costau rheoleiddio'n llwyr. Mae ein costau'n adlewyrchu'r gwaith a wnawn i adolygu asesiadau technegol, a dengys ein gwaith dadansoddi ein bod yn treulio oddeutu'r un faint o amser ar bob cynllun, ni waeth be fo'i faint.

## B7. Nid yw'r fethodoleg codi tâl newydd yn gwobrwyo perfformiad amgylcheddol da o gymharu â'r system OPRA flaenorol

Er bod Opra yn cynnwys pwysoliad ar gyfer perfformiad amgylcheddol, roedd yr effaith ar y sgôr derfynol yn fach iawn.

Lluniwyd yr offeryn bandio er mwyn cyfrifo taliadau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau. Mae'n adlewyrchu faint o amser a dreulir yn penderfynu ar drwyddedau a bydd yn helpu i sicrhau ein bod yn adennill ein costau ar gyfer y gwaith a wnawn.

Credwn fod perfformiad amgylcheddol da yn cael ei adlewyrchu'n well yn y tâl parhau blynyddol. Bydd ein taliadau parhau a'r modd yr awn ati i'w cyfrifo yn cael eu hadolygu'n llwyr yn y dyfodol.

## Atodiad 1 – Y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad codi tâl

Gellir dod o hyd i'r cynigion manwl a nodir yn yr ymgynghoriad trwy glicio ar y ddolen isod.

**[Ymgynghoriad ar ein Hofferyn Bandio Gosodiadau arfaethedig – Gofod i Ddinasyddion Cyfoeth Naturiol Cymru – Gofod i Ddinasyddion (cyfoethnaturiol.cymru)]**

## Atodiad 2 – Geirfa

| | |
|---|---|
| BAT | Y Dechneg Orau Sydd Ar Gael |
| COMAH | Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr |
| Cydymffurfio | Cadw at reolau trwydded |
| Cyngor ac arweiniad cyn ymgeisio | Cyngor ar gais ac arweiniad a roddir i gwsmer sy'n bwriadu gwneud cais am drwydded |
| Cymorth Grant | Cyllideb gan Lywodraeth Cymru i CNC ar gyfer gweithgaredd busnes na chodir tâl amdano a chostau |
| Erthygl 12A | Pwerau i CNC adennill costau am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 |
| Esemptiadau | Gweithgareddau a restrir o dan EPA nad oes angen Trwydded Amgylcheddol ar eu cyfer |
| Generaduron penodedig | Fel y'i diffinnir gan baragraff 2(1) Atodlen 25B Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 |
| Gosodiad | Fel y'i diffinnir gan Atodlen 1, rhan 1 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 2016 |
| Gweithfa Hylosgi Ganolig | Fel y'i diffinnir gan baragraff 2(1) o Atodlen 25A Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 |
| Iaith gweithgaredd | Model ariannol sy'n cysylltu incwm/all-daliadau â'n hamcanion allweddol sy'n cael eu hategu gan y ffrydiau ariannu. |
| Modelu cost | Data amser ac adnoddau staff a ddefnyddir i gyfrifo costau ar gyfer gwaith trwyddedu neu gydymffurfio gweithredol |
| MWPM | Dogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru |
| MWth | Mega Watt thermol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | |
|---|---|
| OPRA | Offeryn Asesu Risg Gweithredol |
| SRoC | Adolygiad strategol o godi tâl |
| Trwydded Bwrpasol | Trwydded safle-benodol (nid set o reolau safonol) |
| Trwyddedau Rheolau Safonol | Setiau safonol o reolau a ddefnyddir i gynhyrchu trwyddedau safle lle mae'r rhain yn cyd-fynd â gofynion cwsmeriaid |
| Trwyddedu | Cynnwys y penderfyniad ar gais am drwydded amgylcheddol, trwydded, caniatâd, ac awdurdodiadau eraill yn ogystal ag amrywiadau, trosglwyddiadau ac ildio trwyddedau cyfredol. |
| *Wedi'i wneud yn briodol* | Cais *am drwydded amgylcheddol* sydd wedi'i dderbyn ac sydd â'r wybodaeth gywir, gan gynnwys yr holl ddogfennau, ffotograffau, ffioedd, a gwybodaeth atodol angenrheidiol y gofynnwyd amdanynt gennym ni i wneud penderfyniad |

Amrywiadau i drwyddedau:

**1. Gweinyddu**

Newid neu gywiro:

- enw neu gyfeiriad ond lle nad yw'r endid cyfreithiol wedi newid
- Cyfeirnod Grid Cenedlaethol i wella cywirdeb
- gwallau teipio
- dyddiad dechrau trwydded
- lleoliad allfa – nid oes angen asesiad technegol newydd

**2. Mân newidiadau**

Newidiadau sy'n gofyn am rywfaint o fewnbwn technegol gan CNC, ond llawer llai nag ar gyfer amrywiad arferol:

- lleoliad allfa
- cyfaint y gollyngiad

**3.Newidiadau Arferol**

Newidiadau sy'n gofyn am fewnbwn technegol gan CNC:

- lleoliad allfa sy'n gofyn am adolygiad o unrhyw asesiad o sylwedd neu gynefin cyfredol
- lleihau llif pasio ymlaen ar gyfer gollyngiadau carthion storm ysbeidiol
- cyfaint neu ansawdd (neu gynnwys) gollyngiad

**4. NewidiadauSylweddol**

Lle mae angen asesiad sylweddol:

- newid cyfaint neu newid ansawdd gollyngiad ac mae angen asesiad newydd o derfynau allyriadau ar gyfer sylweddau penodol
- Sylweddau penodol yw:
- llygryddion peryglus ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr
- sylweddau peryglus neu lygryddion nad ydynt yn beryglus ar gyfer gweithgareddau dŵr daear
- asesiad o sylwedd neu gynefin newydd

## Atodiad 3 – Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad

### (Rhestr o'r holl ymatebion yn llawn)

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hofferyn bandio codi tâl arfaethedig ar gyfer gosodiadau?**

Sut mae'r offeryn bandio'n berthnasol i brosiectau adnewyddadwy a sut mae'n effeithio ar drwyddedau sydd eisoes ar waith?
Byddai tiwtorial ar-lein yn ddefnyddiol.
Ar ôl mynd trwy'r offeryn bandio a symud gwybodaeth o'r ffurflen OPRA flaenorol ar gyfer y safle – rydym yn cyrraedd Taliad Band 3 sy'n nodi'r taliadau ar gyfer Amrywio neu Ildio. Mae un peth yn aneglur – sef beth fydd y Taliadau Parhaus Blynyddol ar gyfer Gosodiadau Band 3 ar sail yr offeryn bandio codi tâl newydd?

Mewn egwyddor, rydym yn cytuno â'r syniad o ddatblygu offeryn bandio codi tâl. Fodd bynnag, mae'r broses arfaethedig yn rhy gymhleth o gymharu â phrosesau cyfrifo a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill yn y DU. Mae astudiaethau diweddar wedi dangos bod yna lefel uchel o anawsterau dysgu ymhlith pobl sy'n gweithio yn y diwydiant gwastraff. Mewn mannau, mae'r iaith a ddefnyddir yn yr offeryn yn aneglur ac mae'r broses yn rhy gymhleth. Nid oes angen defnyddio llawer o eiriau hir a jargon trwyddedu, yn cynnwys acronymau, a allai fod yn anghyfarwydd i nifer o ymgeiswyr.

Mae'r ymdrech ychwanegol o ran defnyddio'r offeryn bandio (a gwaith CNC o ran gwirio'r cyfrifiadau) yn anghymesur â'i werth. Ceisiadau, er enghraifft:

Tab 1

- Yr angen i ddilyn canllawiau ychwanegol ar gyfer y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig/SG – deellir yn llwyr y cymhlethdod sydd ynghlwm wrth weithredu'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig, ond mae'n anodd gweld pam mae angen nodyn cyfarwyddyd ar wahân gogyfer codi tâl ar gyfer y cyfleusterau hyn, ac nid ar gyfer eraill.

Tab 2

- Caiff rhai gwerthoedd cymhlethdod a gwerthoedd cymhlethdod uchel eu seilio ar atebion a nodir ar y dudalen flaenorol – a oes modd cuddio / lleihau / dileu / cydgrynhoi’r adran hon ar y dudalen gyntaf? (e.e. mae cwestiynau cymhleth iawn ynglŷn â thirlenwi a llosgi yn ymwneud yn uniongyrchol ag adrannau’r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol). Trwy eu cydgrynhoi, gellid symud y cwestiynau i un tab a gellid cael llawer llai o gwestiynau (gan nodi bod rhai’n cael eu hawto-lenwi), a byddai hynny’n lleihau’r cymhlethdod ymddangosiadol.
- Mae CIWM Cymru yn croesawu’r cyngor ynglŷn â chymhwysedd, ond nid ydym yn glir ynglŷn â pham y cyfeirir ato yn y tabl codi tâl. Ai cwestiwn ydyw neu ddatganiad cyngor?
- Nid yw rhai nodiadau’n glir e.e. yr acronym ‘WI’ ar gyfer gweithfeydd sment (tybiwn ei fod yn golygu ‘waste incineration’). Byddai’n well pe bai’r nodiadau hyn yn cael eu rhoi mewn dogfen ganllawiau ategol, gan mai i nifer fechan yn unig o weithfeydd yng Nghymru y maent yn berthnasol.
- Gellid awto-ateb y nodyn ynglŷn â phrotocol aml-gynnyrch ar gyfer gweithgareddau Adran 4 nad ydynt yn ymwneud â’r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.
- ‘Arwyddocâd Cenedlaethol’ – a wnewch chi esbonio’r diffiniad yn y canllawiau ategol a’r cyfeiriad at y canllawiau. Caiff hyn ei gamddeall yn aml gan ymgeiswyr.

A wnewch chi egluro’r hyn a gaiff ei leihau:

“A yw eich safle hefyd yn dod o dan Reoliadau COMAH? (bydd lleihad yn cael ei gymhwyso at yr adran hon ar gyfer safleoedd COMAH)”

Ar ôl gwneud cyfrifiad enghreifftiol ar gyfer cyfleuster treulio anaerobig, amcangyfrifir y bydd yna gynnydd o 25% yn y ffioedd o gymharu â’r cyfrifiadau cyfredol.

Yn benodol, hoffem grybwyll y pryderon canlynol ynglŷn â’r cynnydd mewn ffioedd:

- Ymddengys fod nifer cyfrifedig yr oriau y rhagwelir y bydd eu hangen i bennu ceisiadau yn uchel (188 o oriau yn yr enghraifft ar gyfer cyfleuster treulio anaerobig – sef dwbl yr amser a gymerir i ysgrifennu dogfennau’r cais llawn, ac eithrio’r asesiadau technegol).
- Mae’r ffioedd ar gyfer asesu rhai asesiadau technegol yn uwch na’r ffioedd ymgynghori ar gyfer llunio’r asesiadau, yn arbennig sŵn (£2354). Gall ffioedd ymgynghori ar gyfer asesu sŵn gwaith treulio anaerobig fod mor isel â £1500.
- Ystyriwn fod y ffioedd hyn yn afresymol ar gyfer gosodiadau gwastraff ac efallai y byddant yn atal sefydliadau rhag sefydlu safleoedd gwastraff yng Nghymru, a ninnau islaw’r capasiti angenrheidiol ar gyfer delio â’n gwastraff.
- Y prif dab Ceisiadau ac Amrywiadau – Efallai fod yna wall yn ymwneud â gweithgareddau hylosgi A1.1:

| Schedule 1 Part A(1) Reference | Primary Activity | New activity | Threshold | Current activity capacity in your permit | New capacity | Units | BATc applies | TCM activity | TCM required | new activity without BATc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Part A (1) a) (i) | | | 50 | 50 | 100 | MW | LCP | 0 | | |

- Mae modd cael gwaith hylosgi sy'n >50MWth, ond sydd islaw'r trothwy ar gyfer BATc Gweithfeydd Hylosgi Mawr – h.y. os yw'r holl unedau'n <15MWth neu os ydynt yn >15MWth heb rannu sgrin wynt gyffredin. Nid wyf yn credu bod y gwall hwn yn rhedeg trwy'r cyfrifiad, ond gall beri dryswch i ymgeiswyr oherwydd efallai y byddant yn credu bod angen iddynt gymhwyso terfynau BAT Gweithfeydd Hylosgi Mawr. Go brin y bydd y daenlen yn darparu ar gyfer y mathau hyn o gymhlethdodau wrth ddehongli'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, felly efallai y byddai'n ddoeth cael gwared â'r golofn BATc yn llwyr.

Amrywio, er enghraifft:

- Y tab Cyflwyniad – Ailadroddir cwestiynau mewn ffurflenni cais statudol – pam mae angen gofyn am yr wybodaeth hon eto yn yr offeryn bandio codi tâl?
- Y tab gweithgareddau a restrir – "Pa weithgareddau a restrir sy'n hanfodol i'ch cais" – a yw hyn yn golygu "beth yw'r gweithgaredd arweiniol" (h.y. un gweithgaredd)? Byddai'n fuddiol pe bai iaith glir a chyson yn cael ei defnyddio.
- Mae'r daenlen yn cynhyrchu 'trothwy' yn y tab hwn, ond nid yn y cyfrifiad 'ceisiadau' – beth yw'r fantais o wneud hyn? Pam mae hyn yn digwydd mewn un tab, ond nid yn y llall?
- Unwaith eto, fel yn achos y tab ceisiadau newydd, gellid cydgrynhoi neu awto-lenwi ffactorau cymhlethdod ar sail atebion a roddwyd mewn tabiau blaenorol.
- Unwaith eto, fel yn achos y tab ceisiadau newydd, gellid cuddio neu ddileu rhai ymatebion er mwyn lleihau'r cymhlethdod ymddangosiadol (e.e. ymholiadau'n ymwneud â sment).
- Y tab amrywiadau – Efallai y bydd angen aralleirio neu symleiddio Cam 1, Cwestiwn 4. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhai enghreifftiau yn y canllawiau e.e. er mwyn dangos yn glir bod y cwestiwn hwn yn berthnasol i weithrediadau gwastraff sy'n pontio tuag at osodiad (os mai dyna'r sefyllfa).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| STEP 1 - Is this a substantial variation? | 1 | From pre-application discussions, is this a Substantial Variation application? | | yes |
| | 2 | Are you seeking a derogation from a BATc as part of your variation request? | | no |
| | 3 | Number of new Sch 1 Part A (1) activities being added to your permit | | 0 |
| | 4 | Is your proposed increase in throughput more than the threshold that brings that activity into Part A(1) of the Environmental Permitting Regulations? | | no |

Trosglwyddo:

Nid ydym o'r farn bod angen taenlen gyfrifo ar gyfer trosglwyddo trwyddedau. Byddai cael gwared â'r tab hwn yn helpu i symleiddio pethau.

Ildio:

Ymddengys fod sgriniau llai yn peri i'r testun gael ei docio.

Nid oes modd gweld Blwch 7 i gyd ar bob sgrin (efallai fod hyn yn berthnasol i adrannau eraill o'r daenlen hefyd – a wnewch chi wirio hyn).

**Gan edrych ar yr offeryn bandio codi tâl, a yw'n glir beth sydd angen ichi ei wneud i lenwi'r daenlen a chyfrifo eich taliad?**

I grynhoi, dyma ein prif bryderon:

- Eglurder – Gall lefel y manylion a'r math o iaith a ddefnyddir beri dryswch i nifer o ymgeiswyr safleoedd gwastraff.
- Atal buddsoddi – gallai'r cynnydd mewn ffioedd ar gyfer safleoedd llai atal buddsoddwyr rhag buddsoddi yn seilwaith gwastraff Cymru yn y dyfodol.
- Costau anghymesur – mae'r ffioedd ar gyfer pennu ceisiadau am drwyddedau yn uwch yn awr na'r gost o gyflogi ymgynghorydd i baratoi dogfennau'r cais. Mae'r costau sefydlog a godir gan CNC am adolygu asesiadau modelu/technegol yn debygol o arwain at sefyllfa lle bydd safleoedd llai yn 'ariannu' costau safleoedd mwy.
- Effaith amgylcheddol – nid yw'r fethodoleg codi tâl newydd yn gwobrwyo perfformiad amgylcheddol da o gymharu â'r system OPRA flaenorol.